## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 29 Mai 2002 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 4.45 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

## MATERION SY'N YMWNEUD AG IECHYD Y CYHOEDD, A'R SYSTEM GYNLLUNIO

### Diben

1. Hysbysu'r Pwyllgorau am waith sydd ar y gweill i sicrhau yr eir i'r afael yn ystod y broses gynllunio â goblygiadau datblygiadau arfaethedig i iechyd y cyhoedd.

### Y Cefndir

2. Codwyd materion penodol mewn perthynas ag adeiladu ysgolion ar hen safleoedd tirlenwi yn natganiad y Comisiynydd Plant (y cyflwynwyd adroddiad arno i Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc (CSCCYP) (01-02) 8, Ionawr 2002). Mae materion eraill sy'n destun pryder wedi'u gwyntyllu hefyd mewn perthynas â sawl math o ddatblygiad (er enghraifft, datblygu ar dir llygredig, a chyfleusterau gwastraff), ac mewn ceisiadau cynllunio diweddar. Mae 2 adroddiad ar iechyd y cyhoedd a chynllunio wedi'u cyflwyno i Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc, ac mae wedi cytuno ar amserlen ar gyfer y gwaith cychwynnol.

3 Mae'r materion a wyntyllir yn rhai cymhleth, ond mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd ymarferol o sicrhau bod y broses gynllunio yn ymdrin mewn ffordd briodol â goblygiadau unrhyw ddatblygiadau arfaethedig i iechyd y cyhoedd. Mae angen mynd ati i'w hystyried ar sail yr wybodaeth wyddonol orau sydd ar gael. Rhaid dod o hyd i ffyrdd i ddefnyddio'r wybodaeth honno i greu dull ymarferol o lywio penderfyniadau ar gynllunio; gan wneud hynny mewn ffordd sy'n ennyn hyder pobl yn y system gynllunio.

4 Am resymau cyfreithiol, rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio ar sail

ystyriaethau cynllunio. Mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud eisoes ar sail ystod o

asesiadau. Dylem anelu at sicrhau eu bod yn ymdrin â materion a phryderon sy'n ymwneud ag iechyd heb roi baich amhosibl ar ymgeiswyr, yr awdurdodau cynllunio lleol na'r rhai yr ymgynghorir â hwy. Pan fod angen cael caniatâd mwy nag un corff, bydd yn bwysig sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu. Yn hytrach, dylid sicrhau - cyn belled ag y bo modd - bod y prosesau'n cael eu hintegreiddio, eu bod yn effeithlon, a'u bod o leiaf yn defnyddio peth o'r un wybodaeth.

5 Ymgynghorwyd yn ddiweddar ar gynigion i wella'r ffordd y gweinyddir

y system gynllunio [daeth y cyfnod ymgynghori ar "Cynllunio: cyflawni dros Gymru" i ben ar 29 Ebrill, ac mae'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion yn mynd rhagddo]. Mae angen gwneud mwy o waith i:

i. ystyried sut y mae'r system gynllunio'n mynd ati ar hyn o bryd i ystyried cyngor ar iechyd y cyhoedd, a sut y dylid mynd ati yn y dyfodol i gymryd effeithiau posibl ar iechyd pobl i ystyriaeth;
ii. ymateb i alwadau i'r system gynllunio roi mwy o ystyriaeth i effeithiau posibl datblygiadau ar iechyd; a
iii. ystyried goblygiadau hyn i feysydd polisi ac i systemau eraill ar gyfer rhoi caniatâd (ee dulliau integredig o atal a rheoli llygredd - IPPC).

**Yr Amserlen y Cytunwyd Arni**

6 Yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth, cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc y byddai cam cyntaf y gwaith ar iechyd y cyhoedd a gweithdrefnau cynllunio wedi'i gwblhau erbyn 2002. Dyma'r dyddiadau allweddol:

- 14/01/02 - adroddiad i Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc
- 01/02/02 - cyhoeddwyd "Cynllunio: cyflawni dros Gymru" at ddibenion ymgynghori. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys:
    - dewisiadau ar gyfer gwella'r modd yr eir ati i graffu ar geisiadau cynllunio y mae gan awdurdodau lleol fudd ynddynt; a
    - thrafodaeth ar sut i sicrhau yr eir ati i ystyried peryglon i iechyd a phryderon ynghylch iechyd sy'n gysylltiedig â chynigion datblygu, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r cyrff statudol yr ymgynghorir â hwy.
- 04/03/02 - adroddiad ar gwmpas y gwaith y mae angen ei wneud, a chefndir y gwaith hwnnw, a'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei gyflwyno i Is-bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc, ac yna i'r Cabinet yn ôl y gofyn.

- 26/04/02 - sefydlwyd Grwp Llywio a Grwp Gorchwyl ar lefel sywddogion i symud y gwaith yn ei flaen

- 29/04/02 - daeth y cyfnod ymgynghori ar "Cynllunio: cyflawni dros Gymru" i ben

- 31/05/02 - erbyn y dyddiad hwn, dylid cyflwyno adroddiadau i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ac i'r Pwyllgor Iechyd ar y rhaglen waith a'r amserlen arfaethedig

- 31/12/02 - erbyn y dyddiad hwn, dylid cyflwyno'r cyngion cychwynnol i'r Cabinet ar sut i fynd ati i wella'r ffyrdd y mae'r system gynllunio'n ystyried peryglon i iechyd a materion sy'n ymwneud ag iechyd

**Sylwer:**

Disgwylir i Banel Arbenigol y Prif Swyddog Meddygol gyfarfod ym mis Medi 2002 ac i gyfrannu at y gwaith hwn.

Mae fersiwn drafft "Gwell Iechyd Gwell Cymru 2" hefyd yn cyfeirio at y gwaith hwn.

**Camau i'r Cymryd gan y Pwyllgor**

7 Nodi'r rhaglen waith a'r amserlen arfaethedig.

**Cydymffurfio**

1. Y Cynulliad sy'n gyfrifol am iechyd, diogelu'r amgylchedd a pholisi cynllunio yng Nghymru. O ran materion sy'n ymwneud â chydymffurfio, bydd unrhyw gynigion a wneir o ganlyniad i'r gwaith ar y prosiect hwn yn cael eu hystyried yn unigol.
2. Mae'r swyddogion ar y Grwp Llywio a'r Grwp Gorchwyl wedi'u dewis er mwyn cynrychioli'r Grwpiau a'r Is-adrannau hynny y mae canlyniadau a goblygiadau'r prosiect yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol arnynt. Gofynnwyd am gyngor allanol ar rai agweddau ar y prosiect oddi wrth academydd sydd â phrofiad ymarferol yn y maes (y Dr Jon Talbot, Sefydliad Gogledd-ddwyrain Cymru), oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd a llywodraeth leol (cais wedi'i wneud i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru enwebu rhywun). Bwriedir hefyd geisio cyfraniad arbenigol oddi wrth Uned Adfer Tir Awdurdod Datblygu Cymru.
3. Mae adran 304 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar gyfer gwneud gwaith ymchwil, ac mae'r pwer hwn wedi'i drosglwyddo i'r Cynulliad o dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999. Mae gan y Cynulliad y pwer i wneud unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag arfer ei swyddogaethau statudol (Adran

40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). Mae'r pwer hwn wedi'i ddirprwyo hefyd i chi ac i staff. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

1. **Cyllideb y rhaglen** - bydd angen gwneud peth gwaith ymchwil. Caiff yr elfen sy'n ymwneud â chynllunio ei hariannu o'r dyraniadau a geir eisoes yn Rhaglen Ymchil Cynllunio Cymru. Bydd angen i Is-adrannau eraill asesu goblygiadau unrhyw waith ymchwil arall.
2. **Staff** - mae hwn yn faes gwaith newydd o bwys, ac mae cais yn cael ei wneud am fwy o adnoddau ar ei gyfer o'r dyraniad ar gyfer costau rhedeg uniongyrchol.

**Sue Essex AM**

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd**

**Enw Cyswllt**

Cath Ranson, Is-adran Gynllunio, est. 1421

Cath.ranson@wales.gsi.gov.uk